**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Awst 2023

Capasiti'r gwasanaeth sifil

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mehefin 2023 yn nodi pryderon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch capasiti'r Gwasanaeth Sifil o dan bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn rhannu pryderon tebyg ynghylch capasiti a gallu ehangach y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

Yn ddiweddar, gwnaethom ystyried adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gynllunio ar gyfer y gweithlu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 8 Medi 2022. Gwnaethom gymryd tystiolaeth ynghylch cynnwys yr adroddiad, ochr yn ochr â'n gwaith craffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2021-22, ac rydym yn disgwyl cyflwyno adroddiad arnynt cyn diwedd toriad yr haf.

Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a oedd gan Lywodraeth Cymru ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu, gan fyfyrio ar gynllunio'r gweithlu'n weithredol, y dull sy'n dod i'r amlwg o gynllunio'r gweithlu'n strategol a'r ymateb i anghenion presennol y gweithlu.

Fe wnaethom gytuno â chanfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu datblygiad ei strategaeth ar gyfer y gweithlu a'i Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd. Roeddem yn arbennig o bryderus bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n ormodol ar ddatrysiadau staffio dros dro drud, gan gynnwys staff asiantaeth ar gontractau tymor penodol, i fodloni pwysau staffio.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd bryderon tebyg gyda Llywodraeth Cymru yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2019-20, ac er ei fod yn galonogol bod y defnydd o Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro a Lwfansau Dyrchafiad Dros Dro yn lleihau, mae’n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod adrannau'n gallu bod yn hyblyg wrth recriwtio staff addas. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio trwy weithredu cynllun gwaith sylweddol y bydd dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar ddatrysiadau dros dro yn lleihau, gan werthfawrogi ar yr un pryd y byddant yn angenrheidiol, ac yn werthfawr, mewn rhai achosion.

Mae'r dystiolaeth a glywsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn awgrymu y gallai diffyg staff cyfreithiol a pholisi arbenigol effeithio ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ac mae'n arwydd gofidus o’r bylchau mewn sgiliau yn y sefydliad. Rydym yn pryderu ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau hyn yn ei gweithlu i sicrhau bod yr arbenigedd cywir ar gael i gyflawni ei swyddogaethau.

Yn ein hadroddiad, byddwn yn nodi'r pryderon a godwyd yn eich llythyr a byddwn yn parhau i fonitro'r materion hyn wrth graffu ar gyfrifon yn y dyfodol. Bydd ein hadroddiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i chynlluniau ar gyfer y gweithlu a byddwn yn cadw golwg ar y materion hyn.

Byddaf yn sicrhau bod copi o’n hadroddiad yn cael ei rannu â chi pan gaiff ei gyhoeddi.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus